**PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL EOC 06-02(p2)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Iau, 17 Hydref 2002 |
| **Amser:** | 9.00am |
| **Lleoliad:** | Ystafelloedd Pwyllgora 3&4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Teitl** | LGB Forum Cymru |

**Amlinelliad**

**o'r Cynllun Busnes**

---

**2002 i 2005**

## 1. Cyflwyniad

Mae LGB Forum Cymru yn fudiad newydd sy'n gweithio tuag at gydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol i lesbiaid, dynion hoyw a phobl ddeurywiol yng Nghymru.

Y Fforwm yw'r unig fudiad Cymru gyfan o'i fath. Mae'n gweithredu fel llais i lesbiaid, dynion hoyw a phobl ddeurywiol yng Nghymru yn y Cynulliad Cenedlaethol, o fewn awdurdodau lleol ac yn y cyfryngau yng Nghymru. Mae'r Fforwm yn gweithredu fel cynghorydd arbenigol i Bwyllgor Cydraddoldeb Cyfle'r Cynulliad Cenedlaethol ac mae'n gweithio gyda mudiadau ledled y wlad i sicrhau gwell tegwch yng Nghymru.

Mae'r Fforwm yn unigryw gan ei fod yr unig fforwm a noddir gan y llywodraeth ar gyfer lesbiaid, dynion hoyw a phobl ddeurywiol yn y DU. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn helpu i ariannu'r Fforwm drwy ei Gronfa Datblygu Project Hybu Cydraddoldeb yng Nghymru.

Mae Stonewall, y mudiad hawliau dynion hoyw a lesbiaid ledled y DU, yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Fforwm yng Nghymru. Mae'r bartneriaeth yn galluogi'r Fforwm i ddod â dimensiwn Cymreig cryf i waith Stonewall. Mae'r Fforwm yn elwa o brofiad a record llwyddiannus Stonewall yn hybu cydraddoldeb lesbiaidd, hoyw a deurywiol ar lefel y DU.

Mae ymgynghori yn rhan bwysig o waith y Fforwm. Ers ei lansio yn 2001, mae'r Fforwm wedi ymrwymo i gynnwys unigolion a mudiadau LGB ledled Cymru ym mhob agwedd o'i waith. Bydd y Fforwm yn parhau i sicrhau bod ei weithrediadau'n berthnasol i fywydau lesbiaid, dynion hoyw a phobl ddeurywiol yng Nghymru.

Mae'r Fforwm mewn lle da i gyfrannu at y broses o hybu cydraddoldeb i lesbiaid, dynion hoyw a phobl ddeurywiol yng Nghymru. Drwy lobio, hybu arfer da a helpu i newid agweddau'r cyhoedd, mae'r Fforwm yn credu y gall wneud gwahaniaeth.

Ar sail y cryfderau hyn, mae'r cynllun busnes hwn yn amlinellu datblygiad arfaethedig y Fforwm dros y tair blynedd nesaf, 2002 i 2005.

## 2. Sefyllfa bresennol LGB Forum Cymru

- Mae LGB Forum Cymru yn gweithio i sicrhau cydraddoldeb cyfreithiol a chyfiawnder cymdeithasol i lesbiaid, dynion hoyw a phobl ddeurywiol yng Nghymru.
- Mae'r Fforwm yn gweithio mewn partneriaeth gyda Stonewall sy'n cynnig cefnogaeth gwasanaeth personel, arian a rheolaeth i'r Fforwm, ynghyd ag arbenigedd yn y maes.
- Mae'r Fforwm yn cael ei ariannu'n rhannol gan Lywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol i gynnig cyngor a gwybodaeth am faterion sy'n achosi pryder i bobl LGB.
- Mae'r Fforwm yn ceisio cynrychioli lesbiaid, dynion hoyw a phobl ddeurywiol yng Nghymru drwy ymgynghori ag aelodau'r Fforwm, mudiadau LGB, unigolion a grwpiau yn

y gymuned.
- Mae’r Fforwm wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gyda chyrff priodol i ddatblygu ei amcanion.
- Mae’r Fforwm yn fudiad o aelodau. Ei aelodau sy’n ethol y corff llywodraethu a’r Pwyllgor Gwaith mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.
- Ar hyn o bryd, mae’r Fforwm yn cyflogi dau aelod o staff, un yng Nghaerdydd ac un ym Mangor.

## 3. Cyd-destun cynllun busnes 2002 i 2005

Gwelwyd cynnydd arwyddocaol tuag at gydraddoldeb i lesbiaid, dynion hoyw a phobl ddeurywiol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Erbyn hyn, mae gennym oed cydsynio cyfartal;gall lesbiaid, dynion hoyw a phobl ddeurywiol wasanaethu yn y lluoedd arfog a bydd amddiffyniad yn erbyn gwahaniaethu yn y gweithle i lesbiaid, dynion hoyw a phobl ddeurywiol am y tro cyntaf o fis Rhagfyr 2003. Rydym wedi symud ymlaen.

Fodd bynnag, nid oes gan lesbiaid a dynion hoyw y DU gydraddoldeb llawn. Nid oes unrhyw gydnabyddiaeth gyfreithiol i bartneriaethau lesbiaidd a hoyw. Ni chydnabyddir partneriaid o’r un rhyw gan ysbytai fel perthynas agosaf ac nid ydynt yn gallu hawlio buddiannau cynllun pensiwn partner. Ni fydd y ddeddf gweithle newydd yn rhoi amddiffyniad i lesbiaid, dynion hoyw a phobl ddeurywiol yn erbyn gwahaniaethu wrth ddarparu nwyddau a gwasanaethau.

O safbwynt cyfiawnder cymdeithasol, mae’n debyg ein bod fwy ar ôl yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o’r DU. Mae diffyg gwasanaethau cefnogaeth i lesbiaid, dynion hoyw a phobl ddeurywiol yng Nghymru ac yn aml rhaid iddyn nhw wynebu gwahaniaethu lluosog ar sail eu tueddiadau rhywiol ynghyd ag ynysu daearyddol, diwylliannol a iaith gyntaf. Mae cyfran sylweddol o lesbiaid a dynion hoyw sy’n cael eu magu yng Nghymru yn teimlo bod yn rhaid iddyn nhw adael am y dinasoedd mwy cosmopolitaidd yn Lloegr lle gallan nhw fyw yn fwy agored ac yn fwy gonest.

Yng Nghymru, nid yw'n hawdd cael hyd i enghreifftiau o homoffobia mewn ysgolion, yn y cyfryngau ac ar y strydoedd.

Yn ffodus, mae datganoli wedi rhoi cyfle i ni ddechrau newid sefyllfa lesbiaid, dynion hoyw a phobl ddeurywiol er gwell ac i chwilio am atebion priodol i Gymru. Mae'r Cynulliad wedi diwygio llawer o'r prif bolisiau'n barod i gydnabod poblogaeth LGB Cymru o ganlyniad i ymgynghoriad gyda'r Fforwm a'i aelodau.

Mae angen sylweddol yng Nghymu, ond hefyd mae cyfle i newid. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Fforwm wedi datblygu cynllun busnes sy'n canolbwyntio ar feysydd lle mae'r angen mwyaf gyda blaenoriaeth i ardaloedd lle teimlwn y gallwn wneud gwahaniaeth.

## 4. Y Rhaglen waith arfaethedig

### Ein nod

*Nod LGB Forum Cymru yw sicrhau cydraddoldeb cyfreithiol a chyfiawnder cymdeithasol i lesbiaid, dynion hoyw a phobl ddeurywiol yng Nghymru. Mae'r Fforwm yn credu mewn cymdeithas sy'n dathlu amrywiaeth a lle mae gwahaniaethu a rhagfarn yn cael eu herio bob amser. Mae'r Fforwm yn gweithio tuag at gydraddoldeb drwy berswâd gwleidyddol, dadl gyfreithiol a thrwy annog newid cymdeithasol a sefydliadol. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda chymunedau lesbiaidd, hoyw a deurywiol ynghyd â chymunedau lleiafrifol a'r gymdeithas ehangach.*

### Amcanion strategol

Bydd y Fforwm yn gweithio i:

1. alluogi pobl LGB i chwarae rhan lawn yn eu cymunedau ac i gael cefnogaeth yn eu hardaloedd lleol;

2. wneud Cymru yn lle mwy diogel i bobl LGB i fyw yn rhydd o aflonyddwch, gwahaniaethu, bwlio neu drosedd gasau ac ofn y rhain: mewn addysg, yn y gweithle ac yn ein bywydau bob dydd;
3. hybu iechyd a lles pobl LGB yng Nghymru a sicrhau mynediad cyfartal i wasanaethau iechyd;
4. sicrhau cydraddoldeb hawliau i bobl LGB yng Nghymru;
5. godi ymwybyddiaeth yng Nghymru am faterion sy'n wynebu pobl LGB a hybu'r cyfraniad positif y mae pobl LGB yn ei wneud.

Mae'r adran hon yn amlinellu'r rhaglen waith arfaethedig ar gyfer Fforwm LGB Cymru am y tair blynedd 2002 i 2005. Bydd rhai ardaloedd yn cyfrannu at waith parhaus mudiadau'r bartneriaeth. Bydd ardaloedd eraill yn waith newydd a gychwynnwyd gan y Fforwm. O fewn y pump amcan strategol a amlinellwyd, mae'r Fforwm wedi nodi'r prif flaenoriaethau ar gyfer blwyddyn un. Gwelir y rhain yn adran 5.

Bydd y Fforwm yn gweithio i:

1. **alluogi pobl LGB i chwarae rhan lawn yn eu cymunedau ac i gael cefnogaeth yn eu hardaloedd lleol. Bydd y Fforwm yn:**

- mapio'r ddarpariaeth gwasanaeth bresennol ledled Cymru ac yn nodi'r angen mewn ymgynghoriad gyda phobl leol;
- defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu cynllun ar gyfer rhwydwaith cynhwysfawr o wasanaethau;
- gweithio mewn partneriaeth i sicrhau gwasanaeth priodol o safon uchel;
- galluogi grwpiau LGB i gynnig y gwasanaethau hyn drwy hyrwyddo rhaglen hyfforddi i greu sgiliau;
- gweithio gydag ariannwyr statudol, elusennol a chorfforaethol i sicrhau buddsoddiad yn sector gwirfoddol LGB.

**4.2 wneud Cymru'n lle mwy diogel i bobl LGB fyw yn rhydd oddi wrth aflonyddu, gwahaniaethu, bwlio neu drosedd gasau ac ofn y rhain: mewn addysg, yn y gweithle ac yn ein bywydau bob dydd. Bydd y Fforwm yn:**

**mewn addysg:**

- adolygu polisiau ac arferion presennol sy'n ceisio gwneud ysgolion, colegau a phrifysgolion Cymru yn fannau mwy diogel i bobl LGB;
- adeiladu ar yr adolygiad hwn i nodi arfer da a drwg ac i ddatblygu cynllun gweithredu;
- gweithio mewn partneriaeth gyda'r Cynulliad Cenedlaethol i sicrhau bod polisiau addysg yn cyflawni gofynion pobl LGB;
- gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill yn y sector addysg i sicrhau gweithredu priodol;
- cynnig gwybodaeth a chyngor i sefydliadau addysgol.

**yn y gweithle:**

- canfod arfer da a drwg mewn polisiau cyflogi;
- gweithio mewn partneriaeth gyda'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, mudiadau cyflogwyr a chyflogai i hybu cydraddoldeb yn y gweithle;
- gweithio gyda mudiadau cydraddoldeb yng Nghymru i sicrhau cyngor a gwybodaeth i gyflogwyr a chyflogai;
- gweithio'n agos gyda Stonewall i ddylanwadu ar ddeddfau cyflogaeth ar lefel y DU.

**yn ein bywydau bob dydd:**

- gweithio gydag awdurdodau lleol ledled Cymru i sicrhau bod eu Strategaethau Trosedd ac Anhrefn yn cynnwys gweithredu i ddelio â throsedd gasau yn erbyn pobl LGB;
- gweithio mewn partneriaeth gyda'r heddlu, mudiadau diogelwch yn y gymuned a grwpiau LGB i godi ymwybyddiaeth o drosedd gasau homoffobig ac i ddatblygu camau effeithiol i ddelio â'r troseddau hyn;
- gweithio gyda'r Swyddfa Gartref a Chyfarwyddwr Troseddau Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol i sicrhau arian i ddelio â throsedd gasau ar lefel genedlaethol yng Nghymru.

**4.3 hybu iechyd a lles pobl LGB yng Nghymru a sicrhau mynediad cyfartal i wasanaethau iechyd. Bydd y Fforwm yn:**

- gwneud gwaith ymchwil i faint o wahaniaethu sy'n wynebu cyflogai LGB o fewn y gwasanaeth iechyd a defnyddwyr y gwasanaeth iechyd;
- datblygu strategaeth i ddelio â'r gwahaniaethu hyn;
- gweithio gyda mudiadau'r sector iechyd i wella safonau gofal ac ymgyrchoedd hybu iechyd priodol;
- hyrwyddo datblygu gwasanaethau cefnogi a chyngor i lesbiaid, dynion hoyw a

phobl ddeurywiol sy’n gweithio o fewn y sector iechyd.

4. **sicrhau cydraddoldeb hawliau i bobl LGB yng Nghymru. Bydd y Fforwm yn:**

- casglu tystiolaeth am yr anghyfartaleddau presennol sy’n wynebu pobl LGB yng Nghymru;
- gweithio mewn partneriaeth gyda Stonewall i lobio am gydraddoldeb cyfreithiol ar lefel y DU;
- gweithio gyda Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol i sicrhau bod deddfau Cymreig newydd yn cynnwys pobl LGB ac yn hybu cydraddoldeb;
- hybu hawliau cyfartal i bobl LGB ym mhob agwedd o gymdeithas yng Nghymru.

**4.5 codi ymwybyddiaeth yng Nghymru am faterion sy’n wynebu pobl LGB a hybu’r cyfraniad positif a wneir gan bobl LGB. Bydd y Fforwm yn:**

- gwneud gwaith ymchwil i brofiadau lesbiaid, dynion hoyw a phobl ddeurywiol yng Nghymru er mwyn mesur lefelau gwaharddiant, rhagfarn a gwahaniaethu cymdeithasol a sefydlu meincnod i fesur cynnydd yn eu herbyn;
- datblygu ymgyrchoedd ymwybyddiaeth proffil uchel ar faterion arbennig sy’n wynebu pobl LGB;
- creu perthnasoedd gyda’r cyfryngau yng Nghymru er mwyn hybu delweddau positif o bobl LGB yn y cyfryngau;
- datblygu rhaglen o weithgareddau i gynnwys cynrychiolaeth o’r Fforwm mewn prif weithgareddau ynghyd â chyfres o gynadleddau, sioeau ffyrdd, briffio ayyb wedi’u trefnu gan y Fforwm;
- herio gwahaniaethu a rhagfarn yn gyhoeddus pan fydd y rhain yn digwydd.

## 4.6 Ymrwymiadau trefniadol

Bydd y Fforwm yn:

- datblygu cynllun gweithredu ar gyfer pob amcan strategol yn ystod y cyfnod o dair blynedd;
- llunio cynlluniau gweithredu sy’n canolbwyntio ar ddeilliannau gydag amserlenni penodol ac sy’n canolbwyntio ar dasg;
- datblygu mesurau deilliannau a thargedau perfformiad;
- arfarnu perfformiad yn rheolaidd yn erbyn y mesurau a nodwyd;
- cynnal adolygiad o’i amcanion ymhen tair blynedd.

## 4.7 Gwaith craidd

Yn ychwanegol at gyflawni amcanion strategol y mudiad, bydd y Fforwm yn parhau gyda’i waith mewn meysydd craidd eraill.

**Cyngor polisi**

Fel rhan o’r cytundeb ariannu gyda’r Cynulliad, bydd y Fforwm yn parhau i gynnig cyngor a gwybodaeth polisi i’r Cynulliad a mudiadau eraill ar faterion sy’n effeithio ar lesbiaid, dynion hoyw a phobl ddeurywiol yng Nghymru. Bydd y gwaith yn cynnwys:

- gweithredu fel cynghorydd i Bwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad Cenedlaethol;
- datblygu ymatebion i ymgynghoriadau’r Llywodraeth sy’n ymwneud â lesbiaid, dynion hoyw a phobl ddeurywiol;
- cysylltiad rheolaidd gyda swyddogion polisi llywodraeth leol.

## Datblygu partneriaeth a rhwydweithio

Mae'r Fforwm wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth. Bydd y Fforwm yn parhau i weithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill ac i hyrwyddo rhwydweithio rhwng grwpiau ac unigolion LGB. Bydd y Fforwm yn:

- hysbysu mudiadau'r bartneriaeth yn rheolaidd am waith y Fforwm drwy ei daflen newyddion ddwy waith y flwyddyn ynghyd â gwybodaeth ar wefan y Fforwm;
- creu partneriaethau gyda phrif fudiadau gan gynnwys Llywodraeth leol a chenedlaethol, sefydliadau cydraddoldeb eraill, y sectorau busnes a gwirfoddol;
- hyrwyddo rhwydweithio rhwng grwpiau ac unigolion LGB drwy wefan y Fforwm;
- cynnwys amser o gwmpas cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith i grwpiau ac unigolion lleol gyfnewid syniadau a gwybodaeth gydag aelodau'r Pwyllgor.

## Proffil y Fforwm

Bydd y Fforwm yn ceisio hybu gwaith y Fforwm a hysbysebu materion sy'n achosi pryder i lesbiaid, dynion hoyw a phobl ddeurywiol, drwy'r cyfryngau. Bydd y Fforwm yn:

- datblygu rhaglen gyhoeddusrwydd flynyddol yn amlinellu'r gweithgareddau y bydd y Fforwm yn eu mynychu yng Nghymru;
- datblygu protocol y wasg i arwain gwaith cyfryngol y Fforwm a mwyhau ei effeithiolrwydd;
- ymateb i faterion sy'n achosi pryder i bobl LGB yn y cyfryngau yng Nghymru;
- creu cronfa ddata o gysylltiadau yn y cyfryngau yng Nghymru;

## Aelodaeth

Mae'r Fforwm wedi ymrwymo i hysbysu'r aelodau am ei waith. Bydd y Fforwm yn:

- llunio a dosbarthu taflen newyddion i aelodau'r Fforwm ddwy waith y flwyddyn;
- datblygu a chynnal safwe'r Fforwm i gynnig gwybodaeth am y Fforwm a hyrwyddo cysylltiad rhwng y Fforwm a'i aelodau;
- ymgynghori ag aelodau'n rheolaidd am waith y Fforwm;
- trefnu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol lle bydd aelodau'r Fforwm yn ethol y Pwyllgor Gwaith.

## 5. Blaenoriaethau ar gyfer blwyddyn 1 (2002-03)

Mae'n bwysig bod gan y Fforwm ffocws clir a'i fod yn gweithredu'n effeithiol ar ei bump amcan strategol dros dair blynedd y cynllun busnes.

Ychydig o adnoddau sydd gan y Fforwm gyda staff o ddau berson yn unig a bydd yn rhaid canolbwyntio'n flynyddol ar flaenoriaethau penodol o fewn y pump amcan strategol. Yn ystod y tair blynydd, bydd gwaith y Fforwm yn adeiladu'n gynyddol wrth i rai meysydd gwaith gael eu cwblhau ac eraill ddechrau.

Cynigir y canlynol fel meysydd blaenoriaeth i weithredu yn ystod blwyddyn 1:

- cael mynediad i wasanaethau lleol/datblygu yn y gymuned?
- addysg
- cyflogaeth
- ymwybyddiaeth y cyhoedd

**Cael mynediad i wasanaethau lleol/datblygu yn y gymuned**

Roedd diffyg gwasanaethau LGB yng Nghymru a'r angen am ddarparu cefnogaeth i brojectau presennol yn amlwg iawn yn ystod yr ymgynghoriad. Mae hwn yn faes lle rydyn ni'n credu y gallwn ychwanegu gwerth yn y tymor byr a hlepu i ddarparu ymagwedd strategol i ddatblygiad yn y gymuned yng Nghymru.

**Addysg**

Yn ystod ein hymgynghoriad, nodwyd addysg fel y prif faes blaenoriaeth i lesbiaid, dynion hoyw a phobl ddeurywiol yng Nghymru. Roedd Adran 28 a bwlio

homoffobig yn faterion pryder arbennig. O ganlyniad, bydd y Fforwm yn datblygu cynllun gweithredu ar y thema addysg.

**Cyflogaeth**

Y flwyddyn nesaf, gwelir deddf newydd i roi rhywfaint o amddiffyniad i lesbiaid, dynion hoyw a phobl ddeurywiol yn y gweithle. Mae'r Fforwm yn credu ei bod yn hanfodol i gynllunio'n awr er mwyn sicrhau bod y ddeddf yn cael ei gweithredu'n effeithiol a bod cyflogwyr a chyflogai yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldeb o'r dechrau.

**Ymwybyddiaeth gyhoeddus**

Y prif rwystrau i sicrhau cydraddoldeb yw anwybodaeth a rhagfarn. Mae codi ymwybyddiaeth y cyhoedd am y cyfraniad positif y mae pobl LGB yn ei wneud ynghyd â'r materion y mae pobl LGB yn eu hwynebu yn hanfodol. Codi ymwybyddiaeth yn aml yw'r cam cyntaf i newid pethau. Mae'n tanategu'r holl amcanion strategol eraill ac felly mae'n flaenoriaeth y dylid ei threfnu ar ddechrau gwaith y Fforwm.

Bwriedir sefydlu grwpiau tasg aml-asiantaeth i ddatblygu cynllun gweithredu blynyddol ar gyfer bob un o feysydd blaenoriaeth eleni.

## 6. Ymgynghoriad

Bydd y Fforwm yn gwerthfawrogi eich ymateb i Gynllun Busnes 2002-05. Byddem yn gwerthfawrogi petaech chi'n cyflwyno ymateb ysgrifenedig i bob un o'r cwestiynau canlynol ac yn eu hanfon i'r Fforwm yn yr amlen a baratowyd.

Hoffai'r Fforwm gael ymateb ar y materion canlynol.

**1. Ydych chi'n cytuno ag amcanion strategol y Fforwm. Os na, sut byddech chi'n eu newid a pham?**

**2. Ydych chi’n cytuno â blaenoriaethau’r Fforwm ar gyfer blwyddyn un? Os na, beth fyddai eich meysydd blaenoriaeth chi? (Sylwch y bydd y meysydd nad sydd wedi’u blaenoriaethu ar gyfer y flwyddyn gyntaf, yn ddiweddarach yn y rhaglen waith dair blynedd).**

**3. A fyddech chi cystal â rhoi unrhyw sylwadau pellach am y cynllun busnes arfaethedig?**